# Llais y Llywodraethwyr

Tachwedd 2018
November 2018

## Neges gan y Cadeirydd

Annwyl Rieni,

Pleser gennyf gyflwyno adroddiad y llywodraethwyr i rieni ar ran y Corff Llywodraethol.

Mae'r flwyddyn academaidd 2017/2018 wedi bod yn brysur iawn.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Corff Llywodraethol, hen a newydd, sydd wedi gwirfoddoli o'u hamser ac arbenigedd. Mae'r llywodraethwyr yn gweithio'n agos gyda'r staff wrth adolygu ac arfarnu cynnydd a chynllunio ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol yn y dyfodol. Yn flynyddol ein blaenoriaeth yw adeiladu ar ein llwyddiant, adnabod y gwendidau a llunio cynllun gwella ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn camu ymlaen. Rydym wedi derbyn adroddiadau llwyddiannus iawn yn dilyn Arolygiad Estyn ym mis Hydref, 2017 ac Arolygiad yr Eglwys yn mis Tachwedd,2017. Hoffwn ddiolch i'r Pennaeth, staff yr ysgol a'r disgyblion am eu gwaith caled parhaus.

Hoffwn ddiolch i rieni a chyfeillion yr ysgol am barhau i gefnogi'r ysgol, naill a'i drwy wirfoddoli, cefnogi Ffrindiau'r Ysgol neu drwy weithredu fel llywodraethwr/wraig yr ysgol. Rydym yn annog rhieni i gefnogi addysg eich plentyn yn y cartref er mwyn atgyfnerthu'r addysg a ddarperir gan yr ysgol

Rydym yn gobeithio bydd yr adroddiad hwn yn werthfawr i chi fel rhieni. Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau neu gwestiynau sydd gennych.

Martin Lloyd

## Message from the Chair

Dear Parents,

I am pleased to present the Governing Body's annual report to parents on behalf of the Governing Body.

The academic year 2017/18 has been a busy one.

I would like to thank all governors, old and new, who consistently volunteer their time and expertise. Governors work closely with staff to review and evaluate progress and plan future priorities. Each year our priority is to build upon our successes, identify our weaknesses and develop an action plan in order to ensure that our school continues to move forward,. We received a very successful Estyn report in October 2017 and a Section 50 Church Inspection in November,2017. I would like to thank the staff and pupils for their continuous hard work.

I would like to express our appreciation to all parents and friends of the school for continuing to support the school, whether by volunteering to help, supporting the School Friends or serving as a school governor, it is greatly appreciated. We encourage parents to continue to support their child's learning at home as this reinforces the education provided by the school.

We hope that you find this report valuable and would welcome any comments or questions that you may have.

Martin Lloyd

Chair of Governors

## Pwy 'dy pwy ar y Corff Llywodraethwyr
## Who's who on the Governing Body

| Enw / Name | | Category / Categori |
|---|---|---|
| Mrs Rayanne Rogers | | Headteacher/Pennaeth |
| Parch Peter Ratcliffe | | Foundation/Sylfaen |
| Mr Martin Lloyd | | Cymunedol/ Community Cadeirydd/Chair |
| Mr Tudor Jones | | LEA/AALl Vice Chair/ Is-gadeirydd |
| Cllr John Davies | | LEA/AALl |
| Mr Daniel Worth | | Parent/Rhiant |
| Mrs Francisca Harris | | Parent/Rhiant |
| Mrs Nia Morris | | Parent/Rhiant |
| Revd John Powell | | Foundation/ Sylfaen |
| Mr Jeremy Marsh | | Parent/ Rhiant |
| Dr Alun RhysWilliams | | Cymunedol/ Additional Community |
| Mr Noel Evans | | Cymunedol/ Community |
| Mr Kevin Griffiths | | Cymunedol/Community |
| Mrs Nicola Phillips | | Athro/Teaching Staff |
| Mrs LynneWalters | | SupportStaff/ Staff Cynorthwyol |

**Clerc i'r Llywodraethwyr**
**Kate EvanHughes**
**Cyfarfwyddwr dros Blant ac Ysgolion**
**Neuadd y Sir**
**HwlffordSir Penfro**
**SA61 1TP**

**Clerk to the Governing Body**
**Kate Evan Hughes**
**Director for Children and Schools**
**County Hall**
**Haverfordwest**
**Pembrokeshire**
**SA61 1TP**

**Strategaeth Ddwyieithrwydd**

Mae Ysgol Cilgerran yn cael ei chategoreiddio fel ysgol Gymraeg, lle mae pob agwedd o'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddysgu yn y Gymraeg ac o leiaf 70% o'r dysgu yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA2. Dysgir Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Bilingual Strategy**

Ysgol Cilgerran is in the Welsh Medium (WM) category of schools, with all subject areas being taught through the medium of Welsh in the Foundation Phase and over 70% of teaching through the Medium of Welsh in Key Stage 2, including Mathematics and S

**Newid Staff**

Hoffwn ddiolch, ar ran holl randdeiliaid Ysgol Cilgerran, i'r staff sydd wedi ein gadael ar ddiwedd y flwyddyn.
Croeso cynnes i'r athrawon Miss Ffion James, Miss Claire Evans a Miss Lowri Waters a Mrs Carrie Ridley,Cynorthwywraig .

**Change in staff**

On behalf of the stakeholders of the school I would like to express our thanks to the staff who left us at the end of the academic year.
A warm welcome to Miss Ffion James, Miss Claire Evans and Miss Lowri Waters class teachers and Mrs Carrie Ridley, Class Assistant.

**Ffigyrau Presenoldeb Disgyblion**

Nifer ar y gofrestr Medi 2018: 109.5
Presenoldeb cyflawn 2017/18 : 95.12%
Absenoldebau gyda chaniatad: 4.66%
Absenoldebau heb ganiatad: 0.22%

**Pupil Attendance Figures**

Number on roll Sept 2018: 109.5
Overall attendance 2017/18: 95.12%
Absences with permission : 4.66%
Unauthorised absences: 0.22%

**End of year financial statement**
**Datganiad ariannol diwedd blwyddyn**

| | |
|---|---|
| Initial Funding / Ariannu gwreiddiol | £455,862 |
| Additional Funding / Ariannu ychwanegol | £4,396 |
| Reserve Balance / Cronfa Mewn Llaw | £75,897 |
| | |
| Total Funding / Cyfanswm yr Ariannu | £530,591 |
| Less: Actual Expenditure / Llai Gwariant Gwirioneddol | £473,913 |
| | |
| End of year balance / Balans diwedd blwyddyn | £56,678 |

## Addysg Arbennig

Yr ALNCO , Mrs Rayanne Rogers, sy'n gyfrifol am addysg arbennig gyda Mrs Nicola Phillips wedi ymgymryd â'r rôl hwn yn ei habsenoldeb. Caiff plant ag Anghenion Addysgol Arbennig eu cofnodi ar gofrestr AAA'r Ysgol, a chaiff hwn ei adolygu yn rheolaidd. Ar hyn o bryd mae 30% o ddisgyblion ar y gofrestr hwn.

Adolygwyd yr holl bolisïau perthnasol yn ystod y flwyddyn. Asesir pob cais ynglŷn â chofrestru pobl ag anabledd er mwyn sicrhau darpariaeth digonol, yn unol â pholisi Cyfle Cyfartal.

## Special needs

Mrs. RayanneRogers ALNCO is responsible for Special Educational Needs with Mrs Nicola Phillips is undertaking this role in her absence. Pupils with special educational needs are placed on the SEN Register and this is revised regularly. At present there are 30% of pupils on this register.

All relevant policies have been reviewed as necessary. All special needs requirements regarding the admission of disabled personnel are assessed by the head teacher in order to ensure adequate provision, in accordance with the Equal Opportunities Policy.

### Targedau

Yn ystod Tymor yr Hydref 2018 bydd Mrs. Nicola Phillips, yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl), a'r staff yn adolygu a gosod targedau ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 am y cyfnod 2018-2019.
Cytunir ar y targedau gan y staff dysgu a'r AALl ac yna cawn eu cyflwyno a'u derbyn gan y Llywodraethwyr.

### Targets

During the Autumn term 2018 Mrs Nicola Phillips, the Local Authority(LA) and staff will discuss and set targets for both the Foundation Phase and Key Stage 2 for the period 2018-2019.
Targets are agreed by teaching staff and the LA and are then presented and agreed by the Governors.

### Darpariaeth Cyfleusterau Toiledau i Ddisgyblion

Ar gyfer y plant lleiaf mae tri thoiled gwryw/benyw.Ar gyfer gweddill y disgyblion mae pum toiled i'r merched a thri thoiled a phedwar wrinal ar gyfer y bechgyn. Hefyd mae yna doiled anabl a thoiled staff. Ym mhob safle mae yna sebon a basn ymolchi a sychwr dwylo neu bapur sychu dwylo. Caiff y cyfleusterau yma eu glanhau ar ddiwedd bob diwrnod ysgol ac mae unrhyw ddamweiniau yn ystod y dydd yn cael eu glanhau cyn gynted â phosib.

### Provision of Toilet Facilities for Pupils

For the younger pupils there are three unisex toilets. For the remainder of the pupils there are five toilets for the girls and three toilets and four urinals for the boys. There is also a disabled toilet and a staff toilet. All areas have soap and washbasins and either hand dryers or paper towels. These facilities are cleaned at the end of each school day and any accidents during a school day are cleaned as quickly as possible

Dyma grynodeb o'r prif flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn.

Blaenoriaeth pennaf y Cynllun Datblygu Ysgol yw parhau i wella safonau'r pynciau craidd, sef Iaith, Mathemateg a Gwyddoniaeth, gan gynnwys gofynion statudol y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Gweithiwn yn ddyfal ar egwyddorion asesu ar gyfer dysgu a lles y disgyblion.

Mrs. Nicola Phillips yw'r cydlynwraig Iaith- Cymraeg a Saesneg - s'yn arwain ar godi safonau yn y ddwy iaith ar draws yr ysgol. Mae hi hefyd yn arwain y cynllun Siarter Iaith sy'n canolbwyntio ar hybu defnydd o'r Gymraeg tu mewn a thu allan i'r dosbarth.

Miss Lisa Edwards yw'r cydlynwraig Mathemateg a Rhifedd s'yn arwain ar godi safonau Mathemateg a Rhifedd ar draws yr ysgol.

Miss Ffion James yw'r cydlynwraig Gwyddoniaeth s'yn arwain ar godi safonau Gwyddoniaeth ar draws yr ysgol.

Mae prosbectws yr ysgol wedi ei ddiweddaru ac mae copi caled ar gael yn ôl y gofyn.

Here is a summary of the main priorities during the year.

The main priority in the School Development Plan continues to be raising standards within the core subjects, i.e. Language, Mathematics and Science, including the statutory requirements of the literacy and numeracy framework. We continue to work on the fundamentals of assessment for learning and pupil welfare.

Mrs. Nicola Phillips is the Language Coordinator - Welsh and English - who leads on raising standards in both languages across the school. She also leads on the Welsh Language Charter initiative which focuses on promoting the use of Welsh inside and outside the classroom.

Miss Lisa Edwards is the Mathematics and Numeracy Coordinator, who leads on raising Mathematics and Numeracy standards across the school.

Miss Ffion James is the Science Coordinator, who leads on raising standards in Science across the school.

**Llwyddiannau'r Ysgol**

Yn 2018 ymunodd yr ysgol â'r **cynllun Siarter Iaith** er mwyn hybu defnydd o'r Cymraeg tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Yn dilyn ymdrechion y disgyblion a'r staff dyfarnwyd bod ysgol Cilgerran yn deilwng o'r **Wobr Efydd**.

Yn ystod tymor yr Haf llwyddodd yr ysgol in ennill yr **ail faner Eco**,yn dilyn gwaith da gan y Cyngor Eco.

**School Successes**

In 2018 the school joined the Welsh Language Charter initiative in order to encourage the use of the Welsh language inside and outside of the classroom. Following the hard work and effort of the pupils and staff the school was awarded the **Bronze Award**.

During the Summer term the Eco Council the school was successful in gaining the **second Eco flag**,following good work by the Eco Council.

**Polisïau**

Adolygwyd yr holl bolisïau perthnasol yn ystod y flwyddyn.

**Polisi Presenoldeb**

Mae'r polisi yn cynnwys y drefn ar gyfer nodi presenoldeb.
Rhaid hysbysu'r ysgol am bob absenoldeb. Rhaid cysylltu â'r ysgol erbyn 9.30 y.b a rhoi rheswm dros yr absenoldeb.
Os na dderbynnir rheswm yna bydd yr ysgol yn nodi bod y disgybl yn absennol HEB ganiatâd a byddwn yn danfon llythyr yn gofyn am esboniad. Os dderbynnir esboniad dilys, yna mae'r rheswm dros yr absenoldeb yn newid i absenoldeb GYDA chaniatâd.
Os na dderbynnir esboniad yna byddwn yn nodi absenoldeb HEB ganiatâd.
Os yw canran presenoldeb disgybl o dan 90% yna bydd yr Awdurdod Addysg Leol yn hysbysu'r Swyddog Cefnogi Disgybl.
**Mae'r polisi presenoldeb yn awgrymu'n gryf na ddylai unrhyw riant gymryd ei phlentyn/blentyn/ plant allan o'r ysgol am wyliau yn ystod adeg tymor ysgol.**

**Polisi Gosod**

'Rydym yn ysgol gymunedol ac felly mae'r ysgol ar gael i'w llogi ar gyfer defnydd gan y gymuned.

**Costau Llywodraethwyr**

Ni hawliodd unrhyw Lywodraethwr/lywodraethwraig gostau teithio na chostau cynhaliaeth.

Hoffai'r Brifathrawes Dros Dro ddiolch iddynt am hyn.

**Policies**

All relevant policies have been reviewed as necessary.

**Attendance Policy**

The policy includes the procedure for marking attendance.
School has to be informed of ALL absences.
Parents are advised to contact school by 9.30 am so as to avoid being marked as absent WITHOUT consent. If no reason is given then the child is marked as being absent without consent, and a letter asking for a reason is sent home. If letter is returned with a valid reason stated then the marking is reversed to absent WITH consent. If however no reason is given in a letter then the marking of Unauthorized absence remains.
If a child's attendance is under 90% for the academic year then this is of concern to the Local Education Department and they will notify the Pupil Support Officer. **Our attendance policy strongly advised that parents do not take their child/children on holiday during term time.**

**Lettings Policy**

We are a community school and therefore the school is available to be hired for community use.

**Governor Costs**

No Governor claimed travel
expenses or subsistence expenses.

The Acting Head teacher would like to thank the governors for this gesture.

**Ffeithiau a Ffigurau Presenoldeb**
Mae pob diwrnod ysgol yn cyfrif ar gyfer dyfodol eich plentyn
Mae diwrnodau nad yw eich plentyn yn yr ysgol yn ychwanegu at addysg a gollir
Mae 365 o ddiwrnodau, 52 o wythnosau a 12 o fisoedd mewn blwyddyn.
Mae 195 o ddiwrnodau, 39 wythnos a 6 thymor mewn blwyddyn ysgol.
Mae pum niwrnod ym mhob blwyddyn ysgol yn ddiwrnodau hyfforddi ar gyfer athrawon (= diwrnodau HMS)
Felly mae disgyblion yn mynychu ysgol am 190 o ddiwrnodau. Mae 175 o ddiwrnodau yn ddiwrnodau pryd nad oes ysgol.
Rhennir y diwrnod ysgol yn ddwy sesiwn. Felly dylai disgybl fynychu ysgol am 380 o sesiynau.

absennol 10 diwrnod = 95% presenoldeb;
absennol 19 diwrnod = 90% presenoldeb (pedair wythnos gyfan);
absennol 29 diwrnod = 85% presenoldeb;
absennol 38 diwrnod = 80% presenoldeb;
absennol 47 diwrnod = 75% presenoldeb.

Mae colli 17 diwrnod ysgol bob blwyddyn yn golygu y byddwch yn cael gradd lawn yn is yn eich arholiadau na'r radd y dylech ei chael yn ôl eich gallu.
Mae disgyblion â llai na 85% presenoldeb yn annhebygol o gael 5 o raddau A –C yn TGAU neu gael unrhyw gymhwyster.

Prydlondeb
Mae bod yn hwyr ar gyfer ysgol yn aml yn ychwanegu at yr addysg a gollir:
5 munud yn hwyr pob diwrnod = 3 diwrnod coll pob blwyddyn
15 munud yn hwyr pob diwrnod = bod yn absennol am 2 wythnos bob blwyddyn
30 munud yn hwyr pob diwrnod = bod yn absennol am 19 diwrnod bob blwyddyn
**Mae colli 19 diwrnod (90% presenoldeb) bob blwyddyn dros gyfnod o 10 mlynedd o fywyd ysgol = un flwyddyn gyfan o ysgol.**

**Attendance Facts and Figures**
Every School day counts towards your child's future
Days off school add up to lost learning
A year has 365 days, 52 weeks, and 12 months
The school year has 195 days, 39 weeks, and 6 terms.
Five days in each school year are training days for teachers (= INSET days)
Pupils ,therefore ,attend school for 190 days . 175 days are non-school days.
A school day is divided into two sessions. A pupil,therefore,should attend school for 380 sessions.

10 days absence = 95% attendance
19 days absence = 90% attendance (four whole weeks)
29 days absence = 85% attendance
38 days absence = 80% attendance
47 days absence = 75% attendance

17 days off school every year means that you will probably obtain a whole grade lower in your exams than you are really capable of.
Pupils with less than 85% attendance are unlikely to gain 5 A-C GCSE's or any qualifications.

Punctuality
Being frequently late for school adds up to lost learning:
5 minutes late every day = 3 lost days a year
15 minutes late every day = being absent for 2 weeks a year
30 minutes late every day – being absent for 19 days a year

# Canlyniadau Asesu / Assessmnent Results 2017 –2018

Mae canlyniadau Asesiadau'r Cyfnod Sylfaen 2018 Ysgol Cilgerran yn dangos bod 94% wedi cyrraedd Deilliant 5+ (y deilliant disgwyliedig) yn Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, 94% wedi cyrraedd Deilliant 5+ ym Mathemateg a 94% wedi cyrraedd Deilliant 5+ yn Natblygiad Personol a Chymdeithasol.

| **Pwnc / Subject** | **Ysgol Cilgerran Deilliant 5+** |
|---|---|
| Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu / Language,Literacy and Communication | 94% |
| Datblygiad Mathemategol/Mathematical Development | 94% |
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol / Personal and Social Development | 94% |

Our end of Foundation Phase Teacher Assessment results for 2018 show that 94% have attained Outcome 5+ (the expected outcome) in Language, Literacy and Communication, 94% have attained
Outcome 5+ in Mathematics, and 94% have attained Outcome 5+ in Personal and Social Development.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 gwelwn fod 100% wedi cyrraedd Lefel 4+ (y lefel ddisgwyliedig) yng Nghymraeg, 100% wedi cyrraedd Lefel 4+ yn Saesneg, 100% wedi cyrraedd Lefel 4+ ym Mathemateg a 100% wedi cyrraedd Lefel 4+ yng Ngwyddoniaeth.

| **Pwnc / Subject** | **Ysgol Cilgerran Level 4+** |
|---|---|
| Cymraeg/ Welsh | 100% |
| Saesneg/English | 100% |
| Mathemateg/Mathematics | 100% |
| Gwyddoniaeth/Science | 100% |

End of Key Stage 2 results show that 100% of year 6 pupils attained a Level 4+ ( the expected level) in Welsh, English, Mathematics and Science.

**Addysg Gwerthoedd**

Ein nod yw hyrwyddo ethos ysgol drwy werthoedd craidd

- Bydd ffocws ar werthoedd gwahanol pob hanner tymor mewn gwasanaethau ac mewn gwersi. Mae iaith gwerthoedd yn treiddio'n gyflym drwy'r ysgol a'r gymuned.
- Yn gyfochrog a'r gwerthoedd, rhaid sicrhau bod pob oedolyn sy'n dod i gysylltiad â'r plant yn yr ysgol yn fodel rôl da.
- Rydym wedi mabwysiadu polisi ymddygiad cadarnhaol gyda ffiniau clir sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws yr Ysgol.
- Gyda'n gilydd mae'n rhaid i ni hyrwyddo prosiectau adeiladu tîm sy'n cynnwys digon o sbri ac annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb i drefnu ac i gynnwys rhieni a'r gymuned.

Mae gwerthoedd yn cefnogi datblygiad y plentyn cyfan fel dysgwr myfyrgar o fewn awyrgylch dawel, ofalgar ac hapus .

**Values Education**

Our aim is to promote a school ethos which is underpinned by core values.

- The focus will be on different values every half term though assemblies and during lessons. The language of values quickly permeates the school and the community.
- Alongside the values, we must ensure that every adult working at the school who comes into contact with pupils is a good role model for them.
- We have adopted a positive discipline policy with clear defined boundaries consistently applied across the school.
- Together we must get involved in promoting team building opportunities entailing plenty of fun and encouraging pupils to take responsibility to organize and involve parents and members of the community.

Values support the development of the whole child as a reflective learner within a calm, caring, and happy environment.

## Gweithgareddau All-Gyrsiol/ Extra-Curricular Activities

**Clybiau'r Ysgol**

Mae'r ysgol yn falch i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 3,4,5 a 6 i fynychu Clwb Pyramid. Mae'r clwb yn cynnig profiadau megis crefftau, paratoi bwyd, chwarae gemau a siarad a gwrando ar ei gilydd. Mae'r clwb yn rhedeg yn wythnosol am gyfnod penodol.

Cynhelir Clwb yr Urdd yn wythnosol ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol lle mae nhw yn ymwneud â gweithgareddau megis coginio, garddio, chwarae gemau a chelf a chrefft.

Mae Clwb Brecwast yn cychwyn yn ddyddiol am 8.15 y.b.

**School Clubs**

The school is proud to offer pupils from Year 3—6 the opportunity to be part of an after school Pyramid Club. The Club offers opportunities in arts & crafts, preparing food and playing games and talking & listening to each other. The club runs on a weekly basis for a fixed period.

The breakfast Club starts at 8.15 am every school morning.

An Urdd Club is held on a weekly basis for all pupils where they undertake activities such as cookng, gardening, playing games and art and

**Chwaraeon**

Yr ydym yn falch o lwyddiant yr ysgol mewn chwaraeon megis, pêl-droed, pêl rhwyd, nofio, athletau, traws gwlad a chriced. Llongyfarchiadau a diolch i bawb sydd wedi cynrychioli'r ysgol.

**Games**

The pupils of Ysgol y Cilgerran have had another busy year in the world of sports. They have competed in a variety of activities such as football, swimming, athletics, cross-country and cricket. We would like to congratulate and thank everyone who has represented the school.

# Ymweliadau a Chysylltiadau Cymunedol / Visits and Community Links

Ymarfer Tân.
Fire drills

Criw Hanfodol

Crucial Crew

Nofio.

Swimming.

Gwasanaethau cyson gan y Parchedig Peter Ratcliffe, Mrs Janet Hawking a Chapel Mount Zion i addysgu'r disgyblion am yr Hen Destament a'r Testament Newydd.

Regular assemblies with the Reverend Peter Ratcliffe, Mrs Janet Hawking and Mount Zion Chapel to educate the children about the Old Testament and the New Testaments.

Mae P.C. Helen Llywelyn a'r tîm PCSO yn ymwelydd cyson â'r ysgol i drafod diogelwch ar y we, peryglon cyffuriau, bod yn ofalus gyda dieithriaid, ymddygiad cymdeithasol a phobl sy'n ein helpu.

P.C. Helen Llywelyn and the PCSO team regularly visit the school to talk about e-safety, drugs, stranger danger, social behaviour and people who help

Dysgu am ddiogelwch y glannau.

Listening to the Coast Guard

Beicio diogel

Cycling Proficiency

Bu Gareth Jones o'r Gwasanaeth Tân yn ymweld â'r ysgol i sôn am beryglon tân a diogelwch yn y cartref

Gareth Jones from the Fire Service visited the school to speak about fire risks and safety in the home.

Bu Dafydd Vaughan, Menter Iaith Sir Benfro, yn dysgu gemau y buarth i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2

Dafydd Vaughan, from Menter Iaith, taught playground games to Key Stage 2 pupils

Cafwyd ymweliad gan Fferm Mêl Aberaeron i sôn am wenyn a sut maent yn creu mêl.

Aberaeron Honey Farm visited the school to talk to the children about bees and honey production.

# Ymweliadau a Chysylltiadau Cymunedol / Visits and Community Links

Wythnos ryngwladol. Ymchwiliodd pob dosbarth gwlad wahanol.

International week. Every class researched a different country.

Ymweliad i ganolfan yr Urdd Llangrannog i ddisgyblion 5 a 6

Year 5 & 6 visited the Urdd camp in Llangrannog.

Daeth y Cwmni "Mewn Cymeriad" i berfformio 'Iaith ar Daith' i CA2 a theatr pypedau i berfformio 'Fferm Ffaldi Ral' i'r Cyfnod Sylfaen a'r Mudiad Meithrin

The theatre group 'Mewn Cymeriad' performed 'Iaith ar Daith' to KS2 and the puppet theatre performed 'Ffaldi Ral Farm' to the Foundation Phase and the Mudiad Meithrin

Canodd côr yr ysgol a blwyddyn 2 yn bore coffi Macmillan yn neuadd y pentref.

The school choir and year 2 sang at the MacMillan coffee morning at the village hall.

Bu plant blwyddyn 6 ar yr afon Teifi mewn corwglau .Trefnwyd y gweithgaredd gan Rod Bowen.

Year 6 spent an afternoon in coracles on the River Teifi. The activity was arranged by Rod Bowen.

Bu plant y Cyfnod Sylfaen i'r Parc Natur i chwilio am arwyddion y Gwanwyn ac i chwilio am fywyd ym mhwll dŵr.

The foundation phase visited the Wildlife Park to search for signs of the Spring and pond dipping.

Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu drwy ganu,adrodd neu ddawnsio yn yr Eisteddfod Gylch a'r Eisteddfod Dawns.

Many of the children competed by singing, reciting or dancing in the Area Eisteddfod and the Dance Eisteddfod.

Mwynheuodd y disgyblion fore o ganu yn y Jambori gyda Martin Geraint a Gwenda Owen.

The children enjoyed a morning of singing with Martin Geraint and Gwenda Owen in the Jamboree.